

Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Medi 8fed 2015 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Geraint Davies (Cadeirydd), Rhys Richards, Geraint Jones, Gwilym Davies, Arwel Davies, Gwynfryn Williams, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwynedd Jones, Euros Puw a Jean Roberts.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

Datgan Buddiant.

Datganodd Rhys Richards ei fuddiant yng nghais ariannol Capel Tal y Bont.

Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Coed mynwent Tal y Bont, Rhyduchaf.

Derbyniwyd llythyr gan aelodau'r capel yn egluro eu bod wedi trefnu i glirio'r coed o gwmpas y fynwent a gofynnwyd a allai'r Cyngor gyfrannu tuag at y gost o wneud y gwaith. Cytunwyd i'w drafod gyda gweddill o'r materion ariannol.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn/ Pum Plwy Penllyn

i) Derbyniwyd copi o gofnodion y cyfarfod diwethaf.

b) Cyngor Gwynedd.

- i) Gwybodaeth am eu sesiynau hyfforddiant Cod Ymddygiad. Cytunodd y clerc fynychu'r cyfarfod ar ran y Cyngor.
- ii) Ail strwythuro'r Gwasanaeth Cofrestru yn Nwyfor a Meirionnydd - llythyr yn ein cynghori o'i bwriad i ail strwythuro'r gwasanaeth presennol ai bwriad i ddod a'r gwasanaeth cofrestru i ben yn Y Bala. Derbyniwyd hefyd gopi er gwybodaeth o ymateb Cyngor Tref Y Bala i lythyr Cyngor Gwynedd a'u cynnig i symud y gwasanaeth presennol i Ganolfan yr Henblas.

c) Parc Cenedlaethol.

- i) Copi o'i rhaglen cyfarfodydd am 2015-16.
- ii) Taflen gwybodaeth am eu hymgyrch Gweld Sêr.

ch) Un Llais Cymru.

- i) Rhestr o'r cynigion a gyflwynir i'w trafod yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar y 3/10/15.
- ii) Llythyr yn ein hysbysu bod cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal ym Mhafiliwn Criced, Dolgellau ar y 23ain o Fedi.

d) Amrywiol

- i) Cymorth Cynllunio Cymru – Gwybodaeth am eu gweithdy hyfforddiant ar y 21/9/15 ym Mhlas Tan y Bwlch.
- ii) Ombwdsmon – Copi o'i Adroddiad Blynyddol 2014/15.
- iv) Llywodraeth Cymru - Gwahoddiad i anfon sylwadau am eu dogfen ymgynghori 'Cyfarwyddiadau Drafft i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Cytunwyd i gymryd golwg dros y ddogfen a pharatoi sylwadau erbyn y cyfarfod ym mis Hydref.

Ceisiadau Cynllunio.

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol a chytunwyd i'w cefnogi:-

NP5/72/T235 – Adeiladu 2 estyniad ochr unllawr. Tyn y Cornel, Frongoch

NP5/72/T112A - Adeiladu estyniad i'r to. Tŷ Hen, Rhyduchaf.

Materion Ariannol.

Datganiad Blynyddol.

Derbyniwyd y Datganiad yn nol gan UHY Hacker Young gyda'r cadarnhad ei fod yn gywir. Cytunwyd i arddangos y 'Rhybudd o ddiwedd yr archwiliad'.

Derbyniwyd ail randal y Praesept - £1650

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

i) Clerc (Ebr-Meh)

ii) UHY Hacker Young (archwilydd allanol)

iii) Partneriaeth Penllyn (cyfraniad tuag at y costau gweinyddol)

Derbyniwyd cais ariannol gan Shelter Cymru a Chapel Tal y Bont. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gyfrannu i Gapel Tal y Bont (Rhys Richards yn datgan buddiant) a chadw cais Shelter Cymru gyda gweddill y ceisiadau ariannol i'w trafod ym mis Mawrth.

Materion Lleol.

A494 ger Abercelyn, Llanycil, Bala.

Roedd dwr yn casglu wrth fynedfa Abercelyn a gyda'r gaeaf yn agosáu roedd y cynghorwyr yn pryderu y gallai rewi ac y byddai'n beryg i'r gyrwyr a oedd yn teithio o gyfeiriad Llanuwchllyn.